MESUR ÔL-TROED CARBON A'I WRTHBWYSO

ADEILADAU

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT

ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk

ADEILADAU

Ôl-troed carbon

PAM?

Yn aml iawn, bydd pobl yn cyfeirio at eiriau Peter Drucker, sef 'gwrw' sy'n rhoi cyngor am sgiliau Rheoli: 'Ni allwch chi reoli [na gwella] yr hyn na allwch ei fesur'. P'un a ydych chi'n hoffi data ai peidio, mae'n wir bod gan bopeth a wnawn ni ôl-troed carbon – yr adeiladau a wresogwn, y bwyd a rannwn, y dillad a wisgwn. Mae deall yr effaith y mae'r hyn a wnawn ni fel eglwys yn ei chael yn gallu helpu i gychwyn sgyrsiau ynglŷn â beth yw'r lefel briodol o adnoddau i'w defnyddio neu pa gamau rhesymol y gallem eu cymryd i ostwng ein heffaith.

SUT?

Mae Stiwardiaid Hinsawdd yn annog eglwysi i 'gyfrifo eich ôl-troed carbon; gostwng y pethau y gallwch eu gostwng a gwrthbwyso'r gweddill': https://www.climatestewards.org/

CYFRIFWCH EICH ÔL-TROED CARBON

Mae Stiwardiaid Hinsawdd, wedi eu comisiynu gan A Rocha UK ac Eglwys Loegr, wedi datblygu 360°carbon – sef rhaglen ar y we sy'n galluogi i eglwysi fesur eu hôl-troed carbon o wahanol weithgareddau: egni, teithio, bwyd, gwastraff, dŵr a gwariant arall. Bydd angen i chi dreulio ychydig o amser yn casglu data ymhob un o'r categorïau hyn er mwyn cael canlyniad defnyddiol: https://360carbon.org/

Anogir eglwysi Eglwys Loegr i gwblhau rhaglen ôl-troed egni (EFT) gyda'u datganiadau blynyddol. Cafodd y rhaglen ôl-troed egni (EFT) ei llunio mewn cydweithrediad â 360° carbon felly os byddwch chi'n mewnbynnu data ar safle Eglwys Loegr, mae'n hawdd ei rannu i'r rhaglen 360° carbon: https://www.churchofengland.org/about/policy-and-thinking/our-views/environment-and-climate-change/about-our-environment/energy-footprint-tool

Mae Stiwardiaid Hinsawdd yn argymell eich bod yn cwblhau'r cyfrifiad bob blwyddyn fel eich bod yn gallu tracio'r newidiadau cyfan a'r newidiadau fesul pen wrth i chi wneud penderfyniadau ynglŷn â gostwng eich carbon.

ADEILADAU

Ôl-troed carbon

Os ydych yn newydd i'r Eco Eglwys, byddem yn eich annog yn gryf i gwblhau'r Adran Egni ar y rhaglen 360° carbon yn rhan o'ch Gwobr Efydd, er ein bod yn cydnabod y byddwch efallai eisiau gwneud gwelliannau mewn meysydd eraill cyn ymdrin â'r meysydd mwy manwl yn yr holiadur 360° carbon.

GOSTYNGWCH Y PETHAU Y GALLWCH

Mae'r adnoddau i'r Stiwardiaid Hinsawdd ac adnoddau'r Eco Eglwys yn llawn o syniadau am ostwng carbon: https://www.climatestewards.org/reduce/

Mae rhai enwadau'n gosod targedau sero-net uchelgeisiol: Yn 2020, pleidleisiodd Eglwys Loegr yn gryf dros geisio cyrraedd targed o allyriadau nwy tŷ gwydr sero-net yn ei gweithgareddau erbyn 2030. P'un a oes targed gan eich enwad chi ai peidio, mae angen i bob un ohonom ostwng y pethau y gallwn, felly ein hawgrym ni yw eich bod yn ystyried pa bethau y gallwch eu cyflawni o un flwyddyn i'r nesaf.

Bydd rhai eglwysi'n ei chael hi'n anodd ac yn ddrud iawn i gyrraedd sero-net. Bydd eraill yn effeithlon iawn yn barod a'u hallbwn carbon yn isel, felly dydyn ni ddim eisiau gosod targedau pendant i bawb. Y nod yw bod eglwysi'n ystyried y problemau, yn trafod eu hopsiynau ac yn gosod targedau gostwng carbon sy'n addas i'w hamgylchiadau nhw.

Yn aml iawn, y peth cyntaf y byddwn ni'n ystyried ei wneud wrth sôn am ostwng allyriadau carbon yw edrych ar y gwresogi. Ond, fel y gwelwch o'r adnoddau yn adran gyntaf yr holiadur, mae llawer o bethau eraill sy'n helpu ac sy'n rhatach i'w gweithredu, e.e. 'Sicrhau Buddion Cyflym', 'Ynysu', 'Goleuadau', neu 'Brynu ynni mwy gwyrdd'.

Un ffordd o wneud hyn yw trosglwyddo i drydan fel y brif ffynhonnell egni oherwydd wedyn mae'n bosibl prynu 100% o egni adnewyddadwy gan gyflenwyr masnachol:
https://www.parishbuying.org.uk/categories/energy/energy-basket
https://www.churchbuying.org.uk/spend-areas

ADEILADAU

Ôl-troed carbon

GWRTHBWYSO'R GWEDDILL

Unwaith y byddwch wedi cyfrifo eich ôl-troed, ac wedi gostwng yr hyn y gallwch, efallai y byddwch eisiau lleihau effaith yr allyriadau sy'n weddill ar yr amgylchedd drwy fuddsoddi mewn prosiectau o amgylch y byd sy'n gostwng allyriadau. Mae'r Stiwardiaid Hinsawdd yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau fel hyn: https://www.climatestewards.org/projects/

Mae plannu coed yn gallu helpu i wrthbwyso allyriadau carbon. Gallwch wneud hyn drwy amrywiol elusennau yn y DU fel Coed Cadw. I'r mwyafrif o eglwysi, mae'r ôl-troed carbon yn rhy uchel i ddibynnu'n llwyr ar blannu coed i wrthbwyso allyriadau. Gwelwch ein hadnodd 'Coed a gwrychoedd' i gael cyngor ar blannu coed brodorol a'r rheiny sy'n debygol o sicrhau'r gostyngiadau mwyaf mewn carbon: https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/give/personal-carbon/

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae Eglwys Loegr wedi cynnal nifer o weminarau sy'n ddefnyddiol i'r holl enwadau. Dyma un ar 'Ddiffinio a mesur carbon sero-net': https://www.youtube.com/watch?v=rbPBmwI4gKc

https://www.carbontrust.com/resources/carbon-footprinting-guide

Mae'n ymddangos bod gwrthbwyso carbon yn dod â budd cyflym i lawer o bobl, ond mae cwestiynau'n parhau o hyd ynglŷn â pha mor effeithiol ydyw mewn gwirionedd. Dydy Greenpeace ddim yn argyhoeddedig: https://www.greenpeace.org.uk/news/the-biggest-problem-with-carbon-offsetting-is-that-it-doesnt-really-work/

ADEILADAU

Ôl-troed carbon

ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae'r Bedyddwyr ar flaen y gad yn y cyswllt hwn am eu bod yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr wrthbwyso'r carbon y maen nhw'n ei gynhyrchu wrth deithio i ddigwyddiadau: https://www.baptist.org.uk/Groups/336203/Carbon_Offset.aspx

STRATEGIC DEVELOPMENT GOALS